

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 201

Pris 80c

Mis Ebrill 2018



Mwy o luniau ar dudalen 9

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Digwyddiadur: huwrowlands@mentercaerffili.cymru

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, **Hysbysebion:** Huw Rowlands, Menter Iaith

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/ **Cwmni** 

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Oedfaon Mis Ebrill

Capeli Cymraeg

Bedyddwyr Tonyfelin

1af Trwy'r dydd : Parch Milton Jenkins

8fed Trwy'r dydd : Parch Dafydd Henri Edwards

15fed Yn Bethel

22ain Trwy'r dydd : Parch Denzil John

29ain Oedfaon arbennig i ddiolch am weinidogaeth
Y Parch Milton Jenkins

Annibynwyr, Bethel

1af 10.30 : Parch Robin Samuel (cymun)

8fed 10.30 : Parch Dr R Alun Evans

15fed 10.30 : Owain Ash yn siarad am ei
brofiad ym Mhatagonia

6.00 Dr J Gwynfor Jones

22ain Yn Tonyfelin

29ain 10.30 : Parch Robert Owen Griffiths

Capel Penuel, Rhymni:

Oedfa 'r nos 6 o'r gloch.

1af Parch Tudor Jones

8fed Rhydd

15fed Parch Glyn T Jones

22ain Y Parch Michael Marsden

29ain Rhydd

Capel Capel y Groeswen

GWASANAETH

y PASG

8fed o Ebrill
3 o'r gloch

Mr Martyn Lewis

Cyntaf i gyd mae plentyn bach yn clywed y Gymraeg gorau i gyd

Braf yw adrodd bod **sesiynau Cymraeg i blant yng Nghaerffili** yn mynd o nerth i nerth.



Mae **Cymraeg i blant** yn gynllun sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Fudiad Meithrin. Mae'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth ymarferol i rieni newydd wrth gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'w plant.

Y prif nod yw cynyddu'r niferoedd o blant meithrin sydd yn siarad Cymraeg ac mae hyn yn rhan allweddol o strategaeth Cymraeg 2050 i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae Cymraeg i blant yn rhan allweddol o wasanaeth Mudiad Meithrin o ddarparu gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg o'r crud i'r ysgol.

Medd Kate Painter Swyddog Maes Cymraeg i blant Caerffili a Chasnewydd:



Kate Painter Swyddog Cymraeg i blant, Caerffili

"Mae'n braf medru rhoi'r cyfle i rieni Caerffili i glosio at y Gymraeg trwy ein grwpiau cefnogi i rieni. Mae'n gyfle gwych i rieni newydd gyda babis bach a phlant dan 3 oed i glywed y Gymraeg mewn awyrgylch glos ac anffurfiol."

Mae cefnogaeth ddwys ar gael yn lleol i annog a chefnogi rhieni i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Trwy fynychu grwpiau 6 wythnos o ddylino babi, ioga babi a stori a chân mae rhieni yn dod i wybod mwy am y daith ddwyieithog sydd ar gael i'w plant yn lleol. Gall hyn fod drwy'r grwpiau Ti a Fi, y Cylchoedd Meithrin a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Caerffili.

Mae ein grwpiau yn agored i ddysgwyr, rhieni di-Gymraeg a siaradwyr Cymraeg ac yn ffordd wych o gymdeithasu gyda rhieni newydd eraill sydd yn byw yng Nghaerffili a'r

cyffiniau. Buan y gwelwn rieni yn dod yn fwy hyderus wrth gyflwyno'r Gymraeg trwy ddysgu hwiangerddi a geirfa syml a dod ar draws darllen llyfrau bwrdd Cymraeg a dwyieithog ac apiau addas i fabanod.

Mae Rachel Downey a'i mab Oliver sydd yn 5 mis oed ac yn byw yng Nghaerffili yn deulu dwyieithog wedi dechrau dod draw i'r sesiynau.

"Mae'n gyfle gwych i Oliver i gael y Gymraeg o'r cychwyn a dod yn hyderus. Mae Oliver wrth ei fodd yn clywed Dad sydd ddim yn rhugl yn y Gymraeg yn darllen Ben a Betsan y Falŵn Fawr iddo!"

Mae ein Clwb misol Doti a Fi mewn partneriaeth gyda Menter Iaith Caerffili, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol a llyfrgelloedd Caerffili hefyd yn cynnig profiad arall i rieni ddod i gymdeithasu a mwynhau gweithgareddau a chrefftau i blant bach. Ewch draw i'n tudalen Facebook Cymraeg i blant Caerffili am fwy o wybodaeth am ein grwpiau a'n digwyddiadau lleol.



Am fwy o wybodaeth am grwpiau cefnogi Cymraeg i blant cysylltwch â Kate Painter: 07486 096638

Katherine.painter@meithrin.cymru
Facebook Cymraeg i blant Caerffili

[llyw.cymru/Cymraeg i blant](http://llyw.cymru/Cymraeg_i_blant)
www.meithrin.cymru

Cofio'r Gwir Enwog

O'r diwedd, cyrhaeddodd y plac i goffa'r Dr William Price safle briodol yn agos i'r man lle y'i ganwyd yn Waterloo ger Machen.

Bydd ein darllenwyr yn cofio i ni gyflwyno adroddiad ar waith y meddyg, a'r frwydr i'w goffau, yn rhifyn mis Tachwedd y papur. Bryd hynny roedd anawsterau yn rhwystro gosod y plac ar dalcen tŷ yn agos i safle fferm Ty'n y Coedcae lle ei ganed. Er nad yw'r plac bellach yn agos iawn i'r man lle safai'r ffermdy, mae yn ymddangos ar dalcen tŷ gerllaw. Bu'r ffermdy yn dafarn tan y ganrif o'r blaen yn dwyn yr enw cwbl anaddas, "Green Meadow". Ac nawr mae stryd o dai modern wedi ei henwi ar ôl y ffermdy, fel y gwelir yn y llun.



Gwnaed llawer mwy i goffau'r doctor a'i waith mewn ardaloedd eraill. Mae cerflun amlwg iddo yn y Bullring yn Llantrisant a chofir amdano ym Mhontypridd lle sefydlodd y Gwasanaeth Iechyd cyntaf un - ar gyfer gweithwyr gwaith haearn Brown Lennox ac eraill. Ond ni, yma yng Nghwm Rhymni, piau fe! Yn yr un modd, yma ganed Evan James, awdur geiriau "Hen Wlad Fy Nhadau" ond ym Mharc ynys Angharad ym Mhontypridd y gwelir cerflun priodol i'w gofio ef a'i fab James James.

Ond dechreuodd y rhod droi pan aeth Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhiw'r Perau gyda chymorth Cyngor Bwrdeistref Caerffili ati i sicrhau coffadwriaeth deilwng a hynny yn Waterloo. Y person a wnaeth drwch y gwaith i sicrhau fod yna blac ac a drefnodd y dathliadau yw Mrs Pat Jones-Jenkins, Ysgrifennydd Mygedol yr Ymddiriedolaeth. (Pat, gyda llaw, oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer ffurfio grŵp Hanes Cwm Ni ac mae bob amser yn gwneud ymdrech i roi o leiaf rhan o'i chyflwyniad yn y Gymraeg.)

Y Cynghorydd Mike Adams, dirprwy Faer y Fwrdeistref gafodd yr anrhydedd o ddadorchuddio'r plac. Ein Haelod Cynulliad, Hefin David, oedd llywydd y te a'r sesiwn gan siaradwyr yng Nghanolfan Gymunedol Rhydri a gynhaliwyd yn syth wedi'r dadorchuddiad.

Nawr fod pethau wedi dechrau digwydd ni ddylid llaesu dwylo. Mae'n bryd ein bod yn coffau William Price mewn modd mwy teilwng yn ardal ei febyd. Teras o dai traddodiadol a stryd o dai modern sydd yn Waterloo ar hyn o bryd. Ond rhoddwyd caniatâd cynllunio i lawer mwy o dai yn 2008. Un amod a gynhwyswyd yn y caniatâd cynllunio oedd bod yn rhaid i'r ystâd newydd gynnwys ysgol gynradd.

Mae ysgol gynradd newydd ar gyfer Pontlotyn ac Abertyswg wedi'i hagor yn ymyl Ysgol Gyfun Rhymni gan greu safle ar gyfer plant 3 - 18 oed. Gosododd y Cyngor Bwrdeistref Sirol esiampl glodwiw drwy enwi'r ysgol newydd hon yn "Ysgol Idris Davies" er coffau bardd enwog Rhymni. Onid priodol felly fyddai enwi'r ysgol newydd yn Waterloo yn yr un modd yn "Ysgol William Price"?

Hefyd, mae angen ymgyrchu er mwyn sicrhau mai Ysgol Gymraeg fydd honno. Byddai hynny yn goffadwriaeth deilwng i'n harwr, un na fedrai siarad gair o Saesneg tan ei fod yn ddeg mlwydd oed. Byddai hyn hefyd yn mynd yn bell tuag at ddiwallu'r galw cynyddol sydd am addysg cyfrwng Gymraeg yn yr ardal honno. I'r gad!!




Cofeb Doctor Price in Llantrisant

Posau'r Plant

gan Mary Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma sy'n dathlu'r



Mae enw'r DEUDDEG mis sydd yn y flwyddyn yn y Chwilair. Ble maen nhw?



IONAWR	CHWEFROR	MAWRTH
EBRILL	MAI	MEHEFIN
GORFFENNAF	AWST	MEDI
HYDREF	TACHWEDD	RHAGFYR

Mae'r atebion ar waelod Colofn y Dysgwyr ar dudalen 13

Cwmni Cwm Ni

Wrth Aros Rufus

Rhagbrawf Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018

Safle'r Gwyndy, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Nos Lun, 21ain o Fai

7:30

£3

Dewch i'n Cefnogi!!!!!!

Dr William Price – a Mrs Price?

Braf oedd bod gyda'r cwmni yn Rhydri ar Fawrth 5 i ddathlu gwaith a bywyd Dr William Price, a aned yn Nhy'n-y-coedcae gerllaw, ac a fedyddiwyd yn eglwys Rhydri. Roedd ei wreiddiau'n ddwfn yn nhir ein bro, ac roedd ganddo gysylltiadau gyda'r diwydiannau oedd yn datblygu yma hefyd. Roedd un o'i gyndeidiau'n berchen gwaith haearn Pentyrch, ac un arall yn berchen ar waith haearn Pontypandy ger Caerffili.

Ond nid ei gysylltiadau teuluol sy'n gwneud Dr Price yn enwog, ond yn hytrach ei fywyd lliwgar a'i syniadau chwyldroadol. Roedd bod yn llysieuwr yn ddigon rhyfedd yn yr oes honno, heb sôn am gredu mewn hawliau dynol, llosgi cyrff y meirw yn hytrach na'u claddu, cyd-berchen ar eiddo – ac anwybyddu rhwymau priodas. Yn wir, gellid ystyried Dr Price fel dinesydd y ganrif hon, ond un a fu mor anlwcus â chael ei eni 200 mlynedd yn rhy gynnar.

Mae hanes difyr iawn i Dr Price, ac mae'n haeddu cael ei gofio. Ond pwy sy'n cofio heddiw am y menywod yn ei fywyd? Ac yn enwedig am ei fam anllythrennog, Mary Edmunds, fu'n forwyn i famgu Dr Price cyn priodi ei dad, y Parchedig William Price, a geni saith o blant iddo. Er iddo gael ei urddo'n offeiriad, cyfrifid y Parch. Price yn wallgo cyn iddo gyrraedd ei dridegau. Tybed faint o gyfle a gafodd Mary i wrthod ei briodi? Mae bywyd wedi bod yn galed iawn i ferched tlawd erioed – yn aml roedd rhaid iddynt adael eu teuluoedd i gael gwaith, ac roedd morynion tŷ fel Mary yn brae i wŷr y tŷ. Efallai bod Mary wedi croesawu'r cyfle i gael priodi, a chael ei chartref ei hun, er bod rhaid clymu ei gŵr yn ei salwch i'w gadair neu i'w wely, a chael tri chymydog ato i'w dawelu pan fyddai'n beryglus. Ni fyddwn fyth yn gwybod ai taro bargaen wnaeth Mary, neu gael ei gorfodi i briodi dyn gwallgo. Doedd dim llais gan fenywod tlawd anllythrennog, a dynion sydd wedi adrodd hanes y Mrs Price hon.

A beth am yr holl ferched ym mywyd Dr Price ei hun? Ganed nifer o blant iddo, mae'n debyg, ond dim ond chwech sy'n cael eu cofio wrth eu henwau, ac ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am eu mamau. Er mor hyddysg oedd y Dr Price, nid oedd dulliau effeithiol o atalcenhedlu ar gael yn y dyddiau hynny. Tybed faint o gysur oedd i Ann Morgan, mam Gwenhiolen Iarlles Morganwg, y ferch a aned iddi hi a Dr Price ym 1842, wybod nad oedd tad ei phlentyn yn credu mewn priodas am ei fod yn caethiwo menywod?

Efallai wrth ganmol Dr Price, dylwn hefyd gofio'r menywod yn ei fywyd, a'r triban a gyfansoddwyd am un o'i gyndeidiau:


“Mae Price o Bontypandy
Yn ddyn a haeddai'i grogi:
Yn denu merched wrth y cant
A thaflu'r plant i'w boddi”.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i'r Dr Price ei hun ymddwyn mewn ffordd mor ffaidd o greulon, ond rhydd y rhigwm cas gip ar rai o erchyllterau bywyd menywod yn y gorffennol.

Brafiach yn sicr yw cofio bod atgofion melys iawn o'u tad gan ddau blentyn ei henaint, sef Penelopen a Iesu Grist II, a enwyd er cof am ei frawd hŷn, yr Iesu Grist bach a fu farw'n fabi, ac a amlosgwyd gan y Dr Price. Rhoddodd ei fam yr enw 'Nicholas Price' iddo ar ôl marw ei dad.

Roedd Penelopen yn berson adnabyddus iawn yn Llantrisant a'r ardal, yn gerddor talentog a nyrs gyda'r Groes Goch yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu hi a Nicholas fyw i weld amlosgfeydd Draenen Pen-y-Graig a Glyntaf yn cael eu hagar – yr ail er cof am eu tad. Yn 1966 dadorchuddiodd Penelopen ffenest liw yno i gofio am ei thad. Ac yno yng Nglyntaf y cafodd dau blentyn Dr Price eu hamlosgi – Nicholas ym 1963, a Penelopen ym 1977.

Dr Elin Jones



Penelopen, merch Dr William Price

Dathlu Canmlwyddiant Rhyddfrefinio *Rhai* Menywod



Bu llawer o ddathlu ledled y wlad yn ystod ail wythnos mis Mawrth. Mawrth 8fed yw Diwrnod Rhyngwladol Menywod, ac eleni roedd y diwrnod hwnnw'n gyfle i ddathlu canmlwyddiant rhyddfrefinio *rhai* menywod ym Mhrydain.

Ym 1918 pasiwyd Deddf Cynrychioli'r Bobl, a roddodd y bleidlais i bob dyn dros 21, ac i'r rhai dros 19 a fu'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn ystod y rhyfel. Rhoddodd y ddeddf y bleidlais hefyd i rai menywod dros 30, os oeddent yn cwrdd â rhai amodau oedd yn ymwneud ag eiddo. Ond er mor rhyfedd o nawddoglyd y mae hynny'n ymddangos i ni heddiw, ystyrid y ddeddf yn fuddugoliaeth i'r mudiad dros ryddfrefinio menywod.

Felly roedd yr 8fed o Fawrth 2018 yn gyfle i ddathlu'r fuddugoliaeth hanesyddol honno, yn ogystal â holl gampau a llwyddiannau menywod ar draws y byd. Ond roedd rhesymau ychwanegol i ddathlu gan y rhai a fynychodd gynhadledd arbennig a gynhaliwyd yn Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd ar y diwrnod arbennig hwn.

Roedd y gynhadledd wedi ei threfnu ar y cyd gan Archif Menywod Cymru, a chan Adran Astudiaethau Rhywedd Prifysgol De Cymru. Ei bwriad oedd nodi canmlwyddiant y bleidlais, ond hefyd i ddathlu ugain mlwyddiant sefydlu'r Archif. Pwrpas yr Archif yw casglu a diogelu'r dystiolaeth am gyfraniadau menywod Cymru i gymdeithas, ac i dynnu sylw at y cyfraniadau hyn. Un o sylfaenwyr yr Archif oedd y diweddar Dr Ursula Masson, a fu'n rhannol gyfrifol hefyd am sefydlu'r Adran Astudiaethau Rhywedd. Bu farw'r Dr Masson union ddeng mlynedd yn ôl, ac roedd y gynhadledd yn gyfle hefyd i gofio amdani ac am ei gwaith er hybu achos hanes menywod yng Nghymru.

Un o nodweddion y diwrnod oedd cyfraniadau'r paneli trafod. Roedd un panel yn cynrychioli cenhedlaeth sefydlu'r Archif, ac yn cofio'r 1970au a'r 1980au, ymgyrchwyr Comin Greenham a Streic Fawr y glöwyr, 1984-5. Roedd y llall yn cynrychioli'r genhedlaeth ifanc, ac yn edrych ymlaen at ganrif newydd yn hanes menywod.

Ac ar ben hynny, cawsom gyfle i ymweld ag arddangosfa arbennig yn y Senedd ei hun, sy'n olrhain yr ymgyrch yng Nghymru i ennill y bleidlais i fenywod, ac yn cynnwys llun trawiadol o Margaret Haig Thomas o Lanwern, ail Arglwyddes Rhondda, a menyw aeth i'r carchar dros yr achos.

Aeth rhai hefyd i edrych ar blac newydd sbon ar un o furiau allanol y Senedd. Dadorchuddiwyd y plac hwn ar Fawrth y 6ed eleni, ac mae'n coffau'r diweddar Val Feld, un o aelodau cyntaf ein Cynulliad, ac ymgyrchydd arall dros hawliau menywod. Hi sefydlodd *Shelter Cymru*, a bu hefyd yn bennaeth y Comisiwn dros Hawliau Cyfartal. Porffor yw lliw'r plac, lliw a gysylltir gyda'r mudiad i ryddfrefinio menywod. Dyma'r gyntaf o gyfres o blaciau porffor fydd yn cael eu gosod er cof am arwresau'r mudiad yn ein gwlad ni.


Ie, hen wlad fy nhadau – ond gwlad fy mamau hefyd o hyn allan. Ymfalchiwn yn eu gwahanol ddoniau a champau, a dathlwn gyda'n gilydd ar yr 8fed o Fawrth bob blwyddyn!

Dr Elin Jones

Fflam y Cwm

Dechreuadau papur bro i Gwm Rhymni gan Sioned Williams

Fe ddechreuais i yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni nôl ym 1983, ddwy flynedd wedi i'r ysgol gyfun newydd ar gyfer Sir Morgannwg Ganol agor ei drysau am y tro cyntaf. Roedd hefyd yn addysgu holl ddisgyblion cyfun cyfrwng Cymraeg Gwent. Roedd yn gyfnod cyffrous iawn yn yr ysgol. Roedd nifer o'r staff yn ifanc, a nifer wedi cael dyrchafiad ar ôl dod draw o ysgolion eraill fel Llanhari a Rhydfelen, a phawb yn awyddus i wneud eu marc a sicrhau llwyddiant yr ysgol newydd.



Dwi'n meddwl bod nifer o'r staff hefyd yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd diwylliannol yr ysgol yn yr ardal - bod presenoldeb yr ysgol Gymraeg newydd hon yn ardal y Bargod yn arwyddocaol o ran helpu amddiffyn a meithrin bywyd Cymraeg Cwm Rhymni.

Un o'r mentrau a ddechreuwyd oedd cylchgrawn ysgol sef papur *Fflam y Cwm*. Mae archif y Llyfrgell Genedlaethol yn dweud i'r papur ddechrau yn 1982. Felly os hoffech gael gafael ar y copi cyntaf bydd un yno, gobeithio! Roedd *Fflam y Cwm* yn cynnwys cerddi a straeon creadigol gan ddisgyblion, a newyddion am dimau chwaraeon yr ysgol ayyb. Ond o'r cychwyn roedd y papur â chysylltiad gyda'r gymuned leol, gyda busnesau'r ardal yn hysbysebu yn y papur.

Er bod y dyluniad yn go gyntefig ar y dechrau, fe aeth y papur o nerth i nerth - yn tyfu o ran ei drwch, ac erbyn fy mod i ym mlwyddyn deg roeddwn yn helpu cynhyrchu'r papur trwy deipio erthyglau yn ystod amser egwyl a chinio. Yna fe ddechreuais gyfrannu colofn materion cyfoes - *Sioned yn Siarad*. Dwi'n cofio trafod pynciau llosg y dydd fel o'n i'n eu gweld nhw - hawliau anifeiliaid, yn ni niwclear, pwysigrwydd yr Urdd. Dechreuodd ffigyrau blaenllaw lleol fel Dafydd


Islwyn gyfrannu colofn a dechreuwyd ei werthu y tu hwnt i furiau'r ysgol drwy law'r athrawon ac aelodau'r cymdeithasau Cymraeg. Fe adawais Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ym 1990 ac roedd y papur yn dal i gael ei gyhoeddi bryd hynny.

Fflam y Cwm roddodd i fi'r cyfle cyntaf nid yn unig i weld fy ngeiriau mewn print, ond hefyd i olygu a threfnu papur newydd. Arweiniodd y profiad cyntaf hwn o newyddiadura at gyfrannu erthyglau i bapur newydd myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a golygu cylchgrawn llenyddol myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol, ac wedi graddio es i hyfforddi fel newyddiadurwr ar y cwrs ôl-radd newyddiadurol ym Mhrifysgol Caerdydd. Dilynodd gyrfa hynod o ddifyr gyda thîm Newyddion BBC Cymru fel is-olygydd a chynhyrchydd ac yna fel golygydd cynorthwyol. Ac er i fi adael yr yrfa honno er mwyn magu teulu, rwy'n parhau i ysgrifennu erthyglau ac adolygiadau i amryw gyhoeddiadau gan gynnwys colofn fisol yng nghylchgrawn Barn. Ers symud i'r Alltwen, Cwm Tawe ddeng mlynedd yn ôl, rwyf wedi bod yn un o olygyddion papur bro *Llais* a bellach yn Gadeirydd y papur. Y mis hwn rydym ni'n dathlu ein 400fed rhifyn a'r flwyddyn nesa fydd 40 mlwyddiant *Fflam y Cwm*, er yn bapur ysgol gan fwyaf, sy'n gyfrifol efallai am hyn oll - cyfeiriad fy ngyrfa a chyfle nawr i gyfrannu at fywyd Cymraeg fy ardal fabwysiedig.

Mewn ardaloedd fel Cwm Rhymni mae'r papur yn sicr wedi cyfrannu at adfywiad yr iaith, gan godi ymwybyddiaeth a chreu balchder newydd yn y bywyd Cymraeg nad oedd yn cael fawr o sylw y tu hwnt i gapel neu ysgol. Mae'n ymddangos i fi bod llawer o athrawon ysgolion Cymraeg yn mynnu bod y cwricwlwm prysur a'r pwysau di-baid sydd arnynt yn ei gwneud hi'n amhosib ymwneud â phapurau bro tu hwnt i anfon ambell lun i mewn.

Fy mhrofiad gwerthfawr a dylanwadol innau gyda *Fflam y Cwm* a arweiniodd at deimlad o berthyn i gymuned Gymraeg y tu hwnt i furiau ysgol, a hefyd at yrfa. Dwi'n credu ei bod hi'n hanfodol bod ein hysgolion yn rhoi'r cyfle gwerthfawr i'w disgyblion fod yn rhan weithredol o greu a chynhyrchu papur bro. Wrth edrych nôl a dathlu felly, rhaid hefyd edrych ymlaen.

Y Parti Mawr





Ysgol Gymraeg Cwm Derwen



Eisteddfod Ysgol

Yn ddiweddar cynhaliwyd ein heisteddfod ysgol flynyddol. Dathlwyd llwyddiant aruthrol drwy gydol yr ysgol. Cafodd pawb y cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o wahanol gystadlaethau. Roedd cyfle i'r disgyblion liwio, ysgrifennu dangos eu llawysgrifen neu ddarlunio. Sicrhawyd fod cystadleuaeth at ddant pawb fel bod y diwrnod yn llawn hwyl, adloniant a dathlu. Enillwyd cadair Eisteddfod Ysgol Cwm Derwen 2018 gan Logan ym mlwyddyn 6 am ei stori am archarwr o'r enw 'Swper Ffa'. Llongyfarchiadau!

Athrawon Newydd

Ein braint yw croesawu athrawon newydd i'n hysgol fach ni. Ers mis Medi rydym wedi croesawu Mrs Cribb, Mrs Morris a Miss Sayce i'n hysgol ac maent yn amlwg wedi dod yn rhan o'n teulu cyfeillgar yn barod. Croeso i'r tîm.



Clybiau

Rydym wedi bod yn brysur iawn y tymor yma drwy gynnal amrywiaeth o wahanol glybiau. Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau megis Celf a chrefft, Coginio, Chwaraeon a pharatoadau ar gyfer yr Eisteddfod Ddawns. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn coginio bwydydd. Mae'r clybiau ar gael i holl ddisgyblion ein cyfnod allweddol 2.



Darlithwyr y Dyfodol?

Yng Nghwm Derwen rydym wrth ein boddau yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion feithrin eu hyder a rhoi'r cyfle iddynt i ymarfer sgiliau mewn sefyllfaoedd tu hwnt i'r arfer. Yn ddiweddar cafodd ein pwyllgor ECO a'n Dysgwyr Digidol y cyfle i rannu syniadau a gwybodaeth efo'r Llywodraethwyr. Roeddent yn wych am rannu beth maent yn gwneud fel tîm ac yn medru dal sgwrs efo'r Llywodraethwyr wrth ateb cwestiynau am yr hyn maent yn eu wneud. Da iawn chi.



Llangrannog

Ym mis Chwefror aeth disgyblion o flwyddyn 5 i Langrannog am yr wythnos i fwynhau a dathlu eu Cymreictod. Pan ofynnwyd i'r disgyblion beth oedd y peth gorau, eu hymateb oedd "Sgio yn yr eira". Wel am braf, cael mynd i Langrannog a chael y cyfle i sgio yn yr eira. O'r lluniau ar ein Trydar roedd y disgyblion yn amlwg wedi cael modd i fyw. Hoffwn ddiolch i'r holl staff aeth i sicrhau diogelwch y disgyblion.



Gwisgwch Goch i Felindre

Roedd y Neuadd yn fôr o goch ar ddiwrnod 'Gwisgwch Goch i Gymru a Felindre'. Casglwyd arian dros Felindre ac fel rhan o ymgyrch Matthew J Watkins, sef tad 2 o'n disgyblion. Bydd Mr Watkins yn beicio o San Fransisco i LA. Pob lwc iddo, ymdrech arbennig.



Rhannu E-Ddiogelwch

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'n Dysgwyr Digidol am fynd o amgylch yr ysgol yn rhoi cyflwyniadau ar sut i fod yn ddiogel ar y we. Ar ddechrau'r flwyddyn gofynnodd y Dysgwyr Digidol os oedd modd creu cyflwyniad a'i rannu, felly gwirededwyd hyn yn ddiweddar. Codwyd nifer o drafodaethau ynglŷn â hyn. Diolch i chi am ein haddysgu ni.



Merched y Wawr Cwm Rhymni



Dair blynedd yn ôl mentrodd tair o Ferched Y Wawr Cwm Rhymni ar Gwrs Crefft y De yng ngwesty Tŷ Glyn Aeron ger Aberaeron. Roedd cychwyn gyda'r wawr a dychwelyd yn y tywyllwch yn dipyn o boen. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd aros dros nos a mwynhau cwpl o ddyddiau i ffwrdd yn 2017 ac eleni.

Lle cyfleus i aros ar y ffordd yw Llanymddyfri. Am y tro cyntaf eleni aethon i'r caffi Fictorianaidd a hynny ar gymeradwyaeth y merched yn y siop w lân. Cawsom ginio hamddenol a blasus. Crwydron ni o gwmpas y dre a dod o hyd i siop ddiddorol a agorwyd dair wythnos yn ôl. Mae'r perchennog yn greadigol iawn ac yn ailgylchu ac uwchgylchu (upcycle) hen ddodrefn yn defnyddio paent, stensiliau ac yn y blaen. Wedyn hen ffefryn, Siop Yr Hen Argraffdy, lle gwelon ni ffrindiau o Donyfelin.

Ganol y pnawn roedd y glaw wedi cyrraedd ond wythnos ynghynt ni fyddai modd cychwyn o'r Cwm oherwydd yr eira. Cyrhaeddodd y gwesty gydag amser i ymlacio yn yr ystafelloedd cysurus cyn cael cinio. Fore trannoeth, i lawr i frecwast a chyfarch Tegwen, ein Cyfarwyddwr Cenedlaethol, ar y ffordd.

Roedd pedair sesiwn o grefft – awr yr un sef:

Argraffu gyda Ruth Jên (yr artist a ddyluniodd ac a argraffodd fag Dathlu'r Aur)

Gwneud broets gyda Ffion Gwyn

Doliau ŷd gydag Aeres James

Llun cerrigos gyda Rhiannon Ling (Bodoli)

Ar wahân i argraffu roedd y crefftau yn newydd i'r tair ohonom. Sialens newydd yn enwedig gan mai dim ond un awr oedd gennym i'w cyflawni.

Daeth y tair ohonom adre gyda'n trysorau wedi cael blas ar y blasu a hoe fach bleserus.

Beth am flasgu gweithgareddau Cangen Merched Y Wawr Cwm Rhymni ac efallai meddwl am fentro ar gwrs crefft neu benwythnos gyda merched o bob rhan o'n gwlad? Cewch hwyl a sbri ymysg dysgwyr a Chymry Cymraeg.

Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis

Helo bawb! Byddwn ni'n cofio mis Mawrth fel mis Y Bwystfil o'r Dwyrain felly dw i wedi dewis cerdd gan Tudur Dylan sy'n disgrifio effaith yr eira ac yn arbennig yr hwyl mae plant yn ei gael yn chwarae ynddo. Ond diolch byth,

Aros ni wnaeth yr eira

felly gobeithio bydd y Gwanwyn wedi cyrraedd erbyn i chi ddarllen hwn!

Sylwch ar y lliwiau yn y pennill cyntaf: er bod yr eira yn wyn, mae llawer o liwiau eraill yn yr olygfa.

Y Sleid Eira

Haul y gorwel yn felyn,
bore'n lân, a'r eira'n wyn.

Y Robin yn gweiddi'n goch
a'r rhew yn oeri drwoch.

Awyr las dros ddinas ddu
a'r rhai hynaf yn rhynnu!
Ond y rhai iau yn mynd am dro
yn eu lifrai i sglefrio,
gwneud sled o goed cyffredin,
a rhaffau, a bagiau bin.

Megaphobia'r eira yw,
a sleid fel tinsel ydyw.
Aros ni wnaeth yr eira,
llawr o ddŵr sy lle'r oedd iâ,
mae'r sleid brynhawn yn llawn lli
a dadmerwyd y miri.

Wedi'r awr o fynd am dro.....
y criw a'r eira'n crio



Y Bwystfil o'r Dwyrain : The Beast from the East

Gwanwyn : Spring

y gorwel : the horizon

drwoch : through you

rhynnu : shivering with cold

lifrai : kit, uniform

sled o goed : a sledge of wood


rhaffau : ropes

yn llawn lli : full of water

dadmerwyd y miri : the fun thawed out

y criw : the gang

Dyma'r atebion i'r posau ar dudalen 5. Sawl un gawsoch chi'n iawn?




Colofn Dafydd Islwyn



Yn rhifyn 13eg o Ragfyr y *Campaign* y llynedd darllenais i furlun gael ei ddadorchuddio yn Ysgol Lewis, Pengam, i gofio un o gyn-athrawon yr ysgol. Bu Thomas Mathews yn athro yn yr ysgol rhwng 1911 a 1916. Yn y gyfrol “The History of Lewis School Pengam”, gan Arthur Wright (1929) ceir llun o'r athrawon yn 1914. Mae Tom Mathews M.A. yn sefyll ar y chwith yn y cefn. Meddai prifathro presennol yr ysgol, Chris Parry: “Mae hi'n fraint arbennig i ni fel ysgol anrhydeddu'r gŵr hwn.”

Roedd yn arloeswr yn creu adnabyddiaeth Gymreig newydd a thrwythodd yn y disgyblion egwyddorion cadarn! Yn ystod ei gyfnod fel athro yn yr ysgol gwerthfawrogwyd ei dalent fel hanesydd, awdur, beirniad celfyddydau, ieithydd, Cymro gwladgarol ac athro. Yng nghyfrol Arthur Wright gellir codi gwybodaeth am Tom Mathews. Dywedir i'r brodor o Landybie gael ei apwyntio yn 1911 i ddysgu Daearyddiaeth a Chymraeg yn lle W. H. Davies a oedd wedi ymfudo i Ganada. Yn 1913 cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf yn yr ysgol dan arweiniad Tom Mathews. Ym mis Chwefror 1916 ac yntau wedi dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwaeledd traddododd y Ddarlith Lantern ar y testun “G. F. Watts, R.A.” Yn fuan wedyn rhaid oedd iddo gefnu ar ddysgu oherwydd cyflwr iechyd a bu farw ar y 6ed o Fedi 1916.

Yn 1976, pan oedd Iori Thomas yn symud i fyw o Drelewis i Glyngaer, wrth baratoi at ei ymddeoliad, cefais ganddo ddau neu dri bocs o'i lyfrau Cymraeg. Yn eu mysgr yr oedd “Dail y Gwanwyn”, barddoniaeth, llên gwerin a straeon gan fechgyn Ysgol Lewis, Pengam dan olygiaeth T. Mathews, Ysgol Lewis Pengam, 1916.




Dyma'r gyfrol daniodd fy niddordeb yn yr awdur. Flynyddoedd yn ddiweddarach cefais yn anrheg gan Miss Williams, Llys Aeron, 109 Gilfach Street, Bargod, gopi o “Llên Gwerin Blaenau Rhymni”, sef casgliad bechgyn Ysgol Lewis. Cyhoeddedig ganddynt yn yr ysgol yn 1912. Meddai Gareth Pierce yn ei gyfrol “Nabod Cwm Rhymni” Mai 1990:



“..... argraffwyd 600 copi gan G. J. Jacobs, Rhymni. Ymgais oedd y llyfryn ar ran athro Cymraeg yr ysgol, Mr Thomas Mathews, M.A. i gael y bechgyn i ysgrifennu yn wreiddiol a naturiol - a heb gyfieithu! Mae yn y casgliad ugain chwedl, deunaw ohonynt yn ymwneud â Chwm Rhymni. “Rhoddwyd sicrwydd gan bob un o'r bechgyn y cafwyd pob dim ar lafar. Er hynny, rhaid gwneud yn eglur mai ffrwyth dychymyg y ddau awdur ydyw'r ddwy chwedl olaf. Teitl y ddwy ydy 'Tylwyth Teg yn Nyffryn Rhymni' a 'Darganfod Glo'. Y ddwy yn dwyn i gof y ddwy chwedl adnabyddus 'Cawr Gilfach Fargod' a 'Glo Cyntaf Cwm Rhymni'.



Clwb Darllen Cwmni



Dyma chweched antur y ditectif Jeff Evans, llyfrau i'w mwynhau bob un. Roedd disgwyliadau'r Clwb Darllen yn uchel a chawsom ni ddim o'n siomi. Mae'r iaith yn llifo'n glir. Er bod dros dri chant o dudalennau mae'r stori yn ein tynnu ni ac yn cyflymu tuag at y diwedd yn esmwyth. Mae John Alwyn Griffiths yn feistr ar y *genre* a, gan ei fod yn heddwas sydd wedi ymddeol, mae ganddo awdurdod yn ei straeon. Teimla'r darllenydd fod popeth sy'n digwydd, er mor anghredadwy, yn bosib.

Mae "Dan Ei Adain" yn adrodd hynt a helynt casgliad o gymeriadau amryliw, rhai yn fwy credadwy na'i gilydd, ond does dim gwahaniaeth am hyn.

Dywed *Gwales* "Mewn ffordd gywrain cawn ein tywys, trwy lygaid Jeff (Evans) i lawr bob math o lwybrau posibl i ddatrys yr achos. Ac eto gwyddom mai dim ond un sy'n ddilys yn y diwedd, ond mae'r diwedd hwnnw yn un y byddai'n gwbl amhosib i ragweld. Clyfrwch yw'r unig air i ddisgrifio'r ffordd y mae'r holl lwybrau, cymeriadau a digwyddiadau wedi'u gweu at ei gilydd i greu uchafbwynt cofiadwy."

I bobol sydd erioed wedi mentro darllen nofel Gymraeg, dyma le da i ddechrau. Mae pob un o'r gyfres yn gyfle gwyh i gwtsho lan gyda stori afaelgar. Maen nhw i gyd ar gael yn eich llyfrgell leol ac, wrth gwrs, yn "Llyfrau'r Enfys" sydd ym marchnad dan do Caerffili.

Mis nesaf (Ebrill) "Y Pla" gan William Owen Roberts yw'r llyfr y bydd y grŵp yn ei drafod. Dewch i ymuno â ni.

Adolygiad gan Mary Jones

Colofn Dafydd Islwyn (parhad)

Mae'r ddwy yn y gyfrol. Ceir troednodyn wrth y stori 'Diwedd Cybydd'. Roedd ef yn byw yn fferm Glancaiach Fawr ac meddai'r nodyn, "Glancaiach dylasai Llancaeach fod. Nid ydyw Llancaich namyn llygriad rhywun neu rywrai anwybodus. Felly hefyd Llanbradach - Glan Bradach fyddai yn gywir." Wrandawodd neb arno!

Yn 1916 cyhoeddwyd 'Dail y Gwanwyn'. Ynddi cyhoeddwyd yr englyn "Ni Ddychwel Ddoe" ond yr awdur yn anadnabyddus,

Er arian, ac er eiriol – er wylo,
Er alaeth beunyddiol
Er gwaeddi yn dragwyddol
Ni ddaw i neb ddoe yn ôl.

Ceir yn y gyfrol, sy â'i phatrwm yn wahanol i'r un gyntaf, un deg chwe chwedl wedi eu lleoli yng Nghwm Rhymni. Yn eu mysg mae 'Dringo Ysgol' - hanesyn am un o ddrudion Tanchwa Senghenydd gan Emrys Rees.

Ym mha Genedlaethol tybed y prynais am dri deg ceiniog 'Perthynas y Cain a'r Ysgol' gan T. Mathews? Ni sylweddolais pan brynais y gyfrol bod Thomas Mathews wedi ei llofnodi: "Cyda chofion gorau. T.M." Cyhoeddwyd hi Ŵyl Ddewi 1916 â'r awdur gartre yn Eryl, Llandybie, yn y gobaith y byddai o ddefnydd i athrawon i roi lle priodol i'r cain ym mywyd y plant. Ynddi ceir llun o Lys yr Heddeidwaid ac Ysgubor Graddfa, Llanbradach - lle y dywedir y cynhaliwyd yr Ysgol Sul gyntaf yng Nghymru.

Oni fuom ni'n lwcus yng Nghwm Rhymni i gael Thomas Mathews yn athro am ym mron i bum mlynedd a hynny dros ganrif yn ôl.

LLANCAIACH FAWR

Cafodd Llancaiach Fawr ei adeiladu ym 1530 gan Dafydd ap Richard ar safle canoloesol preswyl cynharach. Cafodd y plasty ei adeiladu i gael ei amddiffyn gan waliau trwchus iawn 1.2 metr o dewychedd achos bod y 1530au yn amser peryglus. Mae'n dyddio o gyfnod cyn y Ddeddf Uno rhwng Cymru a Lloegr.



'Y Cynrol' Edward Prichard oedd perchennog mwya enwog y plasty. Roedd y teulu Prichard yn falch o'u treftadaeth Gymreig ac yn ymfrostio eu bod yn disgyn o Ifor Bach.

Priododd Edward â Mary Mansell o Lansawel. Daliodd e swydd Siryf Morgannwg ym 1638 ac ym 1640 cafodd ei benodi'n Ynad Heddwch a pharhaodd yn y swydd hon trwy gydol cyfnod y Rhyfel Cartref hyd ei farwolaeth ym 1655.

Roedd Prichard yn cefnogi achos y Brenhinwyr tan ail hanner 1645 pan fel y rhan fwyaf o uchelwyr Cymreig, newidiodd ei deyrngarwch i ochr y Seneddwyr. Cafodd ei benodi'n Llywodraethwr Castell Caerdydd yn hwyr yn yr un flwyddyn ac ym mis Chwefror 1646 amddiffynnodd y castell yn llwyddiannus yn erbyn byddin y Brenin.

Bu farw Prichard yn 1655. Yn anffodus colodd ei ddau fab, Lewis a Thomas pan oedden nhw'n ifanc. Etifeddodd ei ddwy ferch Jane a Mary yr ystadau ac felly wrth iddyn nhw briodi collwyd yr enw Prichard. Roedd y plasty'n cael ei rentu i denantiaid am 300 o flynyddoedd a'i droi'n fferm.

Fodd bynnag dyw teulu Prichard byth wedi mynd yn angof, yn bennaf diolch i'r 'Cynrol' Prichard a'i gampau yn ystod y Rhyfel Cartref a'r plasty ysblennydd maent wedi gadael ar eu hôl.

Cafodd Llancaiach ei werthu i Gyngor Caerffili ym 1979. Heddiw amgueddfa ydy'r plasty yn adrodd hanesion y plasty pan oedd 'y Cynrol' Edward Prichard yno.

Llancaiach Fawr ydy un o dai ysbrydion mwya enwog yng Nghymru.hefyd.



*gan Eirwyn Stokes
Dysgw'r Uwch Hyfedredd Coleg Gwent*

Mai'r 18fed

Byddwn ni yn "Cwmni" yn cofio Dydd Ewyllys Da yn rhifyn mis Mai. Beth am fynd ati i gynhyrchu cyfarchion - ar bapur, cerdyn neu yn electronig?

Mae hwn yn amser da i ddymuno Ewyllys Da i aelodau'n teulu, ffrindiau, cymdogion a chyd-weithwyr.

Beth Amdani?!!

6-7pm

Pob dydd Iau /
Every
Thursday

Pwysï Crwn Kettlebells

gyda /with

Jacqui Spiller

07815 098056

jacspill1@gmail.com



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

mentercaerffili.cymru

Neuadd Pentref Tir-y-Berth Village Hall
CF82 8AJ

£3 y sesiwn / £20 am 10 sesiwn

Addas ar gyfer pob lefel o Gymraeg—dysgwyr i saradwyr rhugl a phob lefel
ffitrwydd

Suitable for all levels of Welsh—learners to fluent and all levels of fitness.
Dim angen bwcio lle, jyst trowch i fyny! / No need to book, just turn up!

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Ebrill 9fed Y Pla

Mai 14eg Dyddiadur

Dewi Llwyd

Mehefin 4ydd Syllu ar Walia

penneyje961@gmail.com


Croeso Cynnes i Bawb

MERCHED y WAWR

Cwm Rhymni

Dydd Mercher,

Ebrill 18fed



CYFARFOD BLYNYDDOL

ac yna, yn dilyn

Clonc a Blasu Ryseitiau o'n Llyfr

7:00 o'r gloch

Festri Tonyfelin

Cyswllt: gaynorw555@gmail.com

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH 022 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd



Capel Tonyfelin

Cymanfa Ganu

Canu Cynulleidfaol,
emynau poblogaidd

Dydd Sul, Ebrill yr 22ain

3 o'r gloch

£5 wrth y drws

(awgrymir archebu ymlaen llaw)

Yr elw at Ganolfan y Glöwyr

(yr hen ysbyty)

02921674242

secretary@caerphillyminerscentre.org.uk

Eisiau ymarfer eich Cymraeg?

Ymunwch â ni ar 2-il ddydd Gwener y mis

Llyfrgell Caerffili ar yr 2-il lawr

2 o'r gloch

Cyfarfod nesa: 13eg o Ebrill

Byddwn ni'n darllen

"Pobol i'w Hosgoi" gan Ruth Richards

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig

bob dydd Llun o 10.30 ymlaen

A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill

(Wetherspoons), Caerffili

Llyfrau'r Enfys

Facebook/Llyfrau'rEnfys

Twitter @llyfrau'rEnfys

Vikki Alexander-07970172754



Bob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,
Ystrad Mynach

mentercaerffili.cymru

Teithiau Clwb Cerdedd

10:00—12:00



☒ Ebrill 4 - Coed Duon - Cwrdd wrth fynedfa ASDA Coed Duon NP12 0NT

☒ Ebrill 11 - Coetir Bargod - Cwrdd ym maes parcio Menter Caerffili CF81 9FW

☒ Ebrill 18 - Cyfarfod Cynllunio - Swyddfa Menter Caerffili Suite 1, Parc St Margaret's, Aberbargod, CF81 9FW

*Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded addas ar gyfer y teithiau.

morganroberts@mentercaerffili.cymru

01443 820913

Hanes Cwm Ni

3/5/18 Gwen Griffiths

Llestri Nantgarw

Trip i'r crochendy, Nantgarw

Tyla Gwyn, Nantgarw, CF15 7TB

Cwrdd yno am 6:30pm

7/6/18 Alun Tudur

Hanes Yr Annibynnwyr

5/7/18 Dave Hale

Effaith y pla ar bobl Cymru +
dathlu diwedd y flwyddyn gyda
Côr Afon Lwyd a Clwb Gwerin
Dysgu Cymraeg Gwent


Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk



Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.
Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD



SADWRN SIARAD

Ebrill 28 April 2018

10:00-12:00

Caffi Yr Ystafell Fyw - The Living Room Café

White Rose Way, Tredegar Newydd NP246FA



Cyfle i gael paned a sgwrs gyda siaradwyr
Cymraeg eraill. Croeso mawr i bawb.

*An opportunity to have a cuppa and a chat with
other Welsh speakers. Everyone welcome.*

mentercaerffili.cymru



#PethauBychain gwybodaeth@mentercaerffili.cymru 01443 820913

BWRLWM YN Y BEECH

Tafarn Y Beech Tree,
Ystrad Mynach

Nos Iau Thursday

19:00 ymlaen onwards

Dydd Iau olaf y mis.

Last Thursday of Every
month.

Noson gymdeithasol
dros diod, dewch i
ymuno am sgwrs.
Addas i siaradwyr
Cymraeg o bob allu.

*Social night over a
pint, join us for a
sgwrs. Suitable for
Welsh speakers of all
abilities.*

01443820913 huwrowlands@mentercaerffili.cymru

mentercaerffili.cymru



CWRS CROCHENWAITH

CWRS 6 WYTHNOS GYDA'R
CROCHENYDD MATT JONES

Pris £36

18:00 - 20:00

Groundworks Caerffili, Bryn Rd, Blackwood NP12 2BH

25/04/18, 02/05/18, 09/05/18, 16/05/18, 23/05/18 a 06/06/18

Am fwy o wybodaeth neu i fwcio lle, cysylltwch â:
huwrowlands@mentercaerffili.cymru - 01443 820 913



mentercaerffili.cymru



www.iwcs.cymru

Sesiynau pob

Nos Fawrth,

Clwb Rygbi Penallta

6.00 – 8.00

£5 y sesiwn

07745927308

Iwcsycwm2015@gmail.com

Llun y Mis gan Margaret Jones

